

**Rheoliadau Safonau'r  
Gymraeg – Adroddiad  
Blynyddol 2023-24**

## Cynnwys

Rhagymadrodd.....	1
Ein safonau .....	2
Cydymffurfiaeth .....	4
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.....	4
Safonau gweithredol.....	9
Safonau Lluo Polisiau .....	17
Safonau Cadw Cofnodion.....	18
Casgliad a'r camau nesaf.....	19
Atodiad A – Archwiliad o sgiliau a dewisiadau iaith Gymraeg .....	21

## Rhagymadrodd

Sefydlwyd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru (Data **Cymru**) yn 2001 fel cwmni sector cyhoeddus, di-elw i roi cyngor, arweiniad a chefnogaeth i lywodraeth leol yng Nghymru mewn perthynas â materion data ac ystadegau.

Rydym yn gwmni llywodraeth leol Cymru sydd â Bwrdd Cyfarwyddwyr a etholir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Caiff rheolaeth weithredol feunyddiol ei darparu gan y Prif Swyddog Gweithredu a'r Uwch Dîm Rheoli.

Er bod gennym Gynllun Iaith Gymraeg ar waith ar sail wirfoddol ers 2008, sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai cyrff penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg).

Yn ystod 2012-13 ymgynghorodd Comisiynydd y Gymraeg ynghylch set o Safonau drafft. Gwnaethom ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Safonau ym mis Awst 2012 ac ym mis Chwefror 2015 cyflwynom ein hymateb i ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd.

Yn dilyn yr ymchwiliad hwn rhoddodd y Comisiynydd Hysbysiad Cydymffurfio i ni. Pennodd hyn y safonau mae angen i ni gydymffurfio â nhw. Rhoddwyd yr Hysbysiad i ni ar 25 Gorffennaf 2016, gan osod ein terfyn amser cyntaf ar gyfer cydymffurfio ar 25 Ionawr 2017 a'n hail terfyn amser ar 25 Gorffennaf 2017.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Yr adroddiad hwn yw ein seithfed Adroddiad Blynyddol sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Mae'r holl staff yn ymwybodol bod rhaid iddynt ystyried y Gymraeg ym mhopeth maent yn ei wneud ac mae'n staff yn ymgynghori â'n Tîm Gwasanaethau Iaith am gymorth ar hyn.

## Ein safonau

Ers Gorffennaf 2017, roedd angen i ni fodloni 115 safon, ac 20 safon atodol, cyfanswn o 135 o safonau. Mae gan Fesur y Gymraeg bum maes safonau, sef: Cyflenwi gwasanaethau; Gweithredol; Llundio polisi; Cadw cofnodion a Hybu. Nid oes gennym unrhyw safonau i gydymffurfio â nhw o dan 'Hyrwyddo'. Dengys **Tabl 1** nifer y safonau mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw (ers 25 Gorffennaf 2017), yn ôl meysydd eu categoreiddio. Dengys **Tabl 2** nifer y safonau atodol, wedi eu dadansoddi yn ôl maes.

**Tabl 1 – Nifer y safonau yn ôl maes**

Maes safonau	Nifer o safonau
Cyflenwi Gwasanaethau	58
Gweithredu	52
Llundio Polisi	15
Cadw Cofnodion	10
Hybu	0

**Tabl 2 – Nifer y safonau atodol yn ôl maes**

Maes safonau	Nifer o safonau
Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	6
Atodol - Gweithredu	6
Atodol - Llundio Polisi	2
Atodol - Cadw Cofnodion	6
Atodol - Hybu	0

Perchnogaeth gorfforaethol sydd gan ein safonau. Y Prif Swyddog Gweithredu (yn ei rôl fel Pennaeth Gwasanaethau Iaith), gyda chefnogaeth y Rheolwr Corfforaethol, sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn y polisiâu a'r gweithdrefnau sydd gennym ar waith er mwyn i ni barhau i gydymffurfio â'r safonau. Serch hynny, mae pob aelod o staff yn gyfrifol am wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'n safonau, ac yn ein herio ni fel sefydliad i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth a allwn i gefnogi ac annog defnydd y Gymraeg.

Mae'r safonau ar gael i staff ar ein gwefan lle rhoddir cyhoedduswydd clir iddynt. Mae ein Bwrdd yn cymryd diddordeb brwd mewn sut rydym yn cydymffurfio ac yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cydymffurfiaeth. Pe bawn yn derbyn unrhyw gwynion, byddai gwybodaeth lawn yn cael ei rhoi iddyn nhw. Mae ein hadroddiad blynyddol am ein cydymffurfiaeth hefyd yn cael ei gyflwyno i'n Bwrdd cyn cael ei gyhoeddi.

Cynhaliwn sesiynau rheolaidd gyda'n staff pan gânt y cyfle i drafod unrhyw anghenion sydd ganddynt yn nhermau defnyddio neu ddysgu Cymraeg. Hefyd mae ein Rheolwr Corfforaethol yn monitro sut rydym yn cydymffurfio drwy wirio ein presenoldeb allanol.

Mae'r Uwch Reolwyr yn derbyn gwybodaeth reolaidd / adborth mewn perthynas â'n Safonau oddi wrth ein Rheolwr Corfforaethol.

## Rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau a'n cydymffurfiaeth

Mae dogfen sy'n rhestru'r holl safonau mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw, sut rydym yn cydymffurfio â nhw, a sut byddwn yn monitro'n cydymffurfiaeth ar gael ar ein [gwefan](#). Mae gennym dudalen benodol ar ein gwefan sy'n cadw gwybodaeth mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

## Ceisiadau am wybodaeth oddi wrth y Comisiynydd

Rydym o dan ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau pe bai Comisiynydd y Gymraeg neu Swyddfa'r Comisiynydd yn gofyn amdano.

Ym mis Mawrth 2024, gwnaethom gyfarfod â Swyddog Safonau o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cytunwyd yn y cyfarfod ein bod yn parhau i ddangos 'sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth'. Casglwyd sawl darn o dystiolaeth ategol i gefnogi'r casgliad hwn gan gynnwys tystiolaeth o ymarferion monitro bwrdd gwaith, a holiadur hunanasesu. Mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn diffinio 'sicrwydd uchel' fel:

<b>Sicrwydd uchel o gydymffurfio</b>	Mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ofynion bob amser, ym mhob amgylchiad, ac eithrio eithriadau prin.
--------------------------------------	---

## Cwynion

Yn ystod 2023-24, ni chawsom unrhyw gwynion mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'n Safonau'r Iaith Gymraeg. Dengys **Tabl 3** na chawsom unrhyw gwynion mewn unrhyw faes.

**Tabl 3 - Nifer y cwynion mewn perthynas â chydymffurfiaeth Data Cymru â Safonau'r Gymraeg**

Maes safonau	Nifer o gwynion
Cyflenwi Gwasanaethau	0
Gweithredu	0
Llunio Polisi	0
Cadw Cofnodion	0

Mae ein Polisi Cwynion ar gael ar ein [gwefan](#) ac mae copïau ar gael ar gais. Nid ydym wedi cael yr un cais am gopïau o'n Polisi Cwynion.

# Cydymffurfiaeth

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn ymwneud â sut rydym yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Rydym yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu â'n partneriaid, rhanddeiliaid a chwsmeriaid yn unol â'r safonau Cyflenwi Gwasanaeth perthnasol.

### Gohebiaeth ysgrifenedig

Pan nad ydym yn gwybod pa iaith sydd orau gan y sawl rydym yn cysylltu â nhw, mae'r holl ohebiaeth gychwynnol yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg naill ai ar yr ochr chwith, neu'n gyntaf. Cofnodwn fel arfer ddewisiadau iaith ar gyfer y mwyafrif o bobl rydym mewn cysylltiad â nhw'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae ein cronfa ddata cyswllt mewnol dal i gael ei hadolygu. Unwaith y bydd system yn ei le byddwn unwaith eto yn dechrau cofnodi dewis iaith.

Pan fyddwn yn gohebu â grŵp o bobl, mae'r cyfathrebu'n ddwyieithog. Mae gennym nifer o weithgorau rydym yn cyfathrebu â nhw'n rheolaidd, ac yn achos y gweithgorau hyn, sefydlwn a chofnodwn iaith gwaith y gweithgor a chyfathrebwm yn unol â hynny.

### Galwadau ffôn

Mae ein system ffôn ar ein prif rif ffôn yn caniatáu i'r sawl sy'n galw ddewis a ydynt am siarad â rhywun yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Rydym wedi rhoi cyfarwyddyd pellach i staff ar sut i ddelio â galwadau a sut mae gwneud yn siŵr bod galwyr yn derbyn y gwasanaeth gorau posib. Mae hyn yn cynnwys arweiniad i'n staff sy'n siarad Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg i sicrhau bod cydbwysedd rhwng aelod o staff yn gallu darparu'r wybodaeth mae galwr wedi gofyn amdani, a'u gallu i wneud hynny yn y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ni o ystyried natur arbenigol ein gweithgarwch.

Mae canllawiau staff yn nodi:

- Y cyfarchion llafar i'w defnyddio;
- Sut i ddelio â galwadau sy'n dod i mewn; a
- Cysylltu â rhywun dros y ffôn am y tro cyntaf.

Mae'r canllawiau'n esbonio'r broses o ddelio â galwyr sy'n siarad Cymraeg, mae'n nodi:

- Os yw person am siarad Cymraeg, rhaid i staff ddelio â'r alwad yn Gymraeg os ydynt yn gallu gwneud hynny.
- Os yw staff yn teimlo nad ydynt yn gallu delio â'r alwad yn Gymraeg (am nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg) mae angen iddynt drosglwyddo'r alwad i rywun sydd wedi cytuno i ddarparu cymorth iaith Gymraeg.

Mae eithriadau i hyn, sef:

- Os oes angen gwybodaeth benodol ar yr alwad ac nad oes gan unrhyw siaradwr Cymraeg wybodaeth / dealltwriaeth o'r pwnc.
- Os oes angen gwybodaeth benodol ar y galwr ac nad oes siaradwr Cymraeg ar gael.

Gofynnir i staff hysbysu ein Tîm Gwasanaethau Iaith os nad oeddent yn gallu cynnal yr alwad yn Gymraeg ac roedd rhaid trosglwyddo'r alwad i aelod o staff oedd yn siarad Cymraeg.

## Cyfarfodydd

Wrth drefnu cyfarfodydd, gwiriwn ddewisiadau iaith y sawl sy'n mynychu a chynigiwn gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg lle mae angen hyn, oni bai bod yr aelod o staff sy'n cynnal y cyfarfod gyda'r unigolyn hwnnw yn siarad Cymraeg yn rhugl. Byddwn yn atgoffa staff o'r angen i gydymffurfio â hyn ar gyfer pob cyfarfod gan gynnwys cyfarfodydd un i un. Mae canllawiau staff yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei wneud pan fydd staff yn gwahodd rhywun i gyfarfod. Mae staff hefyd yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd trwy e-bost a sesiynau briffio staff am eu rhwymedigaethau.

Byddwn yn trefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd sy'n cynnwys deg neu fwy o bobl (gan gynnwys staff Data Cymru ei hun) lle mae trothwy o 10% o'r rhai sy'n mynychu'r cyfarfod hwnnw yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Fel arfer, mae ein cyfarfodydd yn rithwir ac felly, rydym yn defnyddio'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd trwy Microsoft Teams i hwyluso hyn. Mae gennym ganllawiau i gefnogi staff ar sut i ddefnyddio'r swyddogaeth hon. Mae ein cyfieithwyr ar y pryd yn dod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Mae ein Bwrdd wedi ethol cynnal eu cyfarfodydd drwy gyfrwng Saesneg yn unig. Mae'r dewis hwn yn cael ei adolygu pan fydd aelodaeth yn newid.

## Digwyddiadau

Ni wnaethom gynnal unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus yn 2023-24. Os byddwn yn cynnal unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus, rydym yn sicrhau bod unrhyw arwyddion a deunyddiau arddangos eraill yn ddwyieithog gyda'r safle Cymraeg lle'r oedd yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Wrth gynnal gweithdai / cynadleddau / digwyddiadau rydym yn parhau i weithredu'r canlynol:

- Rhoi'r dewis i gynadleddwyr gofrestru yn y Gymraeg;
- Darparu gwybodaeth am y gynhadledd i'r cynadleddwyr yn y Gymraeg;
- Nodi'r siaradwyr Cymraeg ar y rhestr o gynadleddwyr;
- Bydd bathodynau enw siaradwyr Cymraeg yn dwyn symbol "Iaith Gwaith";
- Annog siaradwyr Cymraeg i rwydweithio yn ystod egwyliau cinio / coffi yn Gymraeg; a
- Cheisio annog unrhyw aelodau panel / siaradwyr / Cadeirydd Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Gweminarau "Hysbysu ac Ysbrydoli"

Yn ystod 2023-24 cynhaliom 13 gweminar "Hysbysu ac Ysbrydoli" (trwy Dimau) fel rhan o'n rhaglen meithrin gallu o gymorth i gydweithwyr llywodraeth leol. Gan nad yw Tocyn Cymru ar gael bellach, rydym yn defnyddio Ticketsource fel ein platfform tocynnau ar-lein. Er nad yw Ticketsource yn gwbl ddwyieithog, byddwn yn darparu cynnwys disgrifiadol yn y ddwy iaith lle bynnag y mae'r system yn caniatáu. Mae'r holl ohebiaeth a anfonir gan gynnwys y manylion yng ngwahoddiad, cyflwyniad a gwerthusiad y Tîm i gyd yn ddwyieithog. Mae ein gweminarau yn cael eu hysbysebu fel rhai sy'n cael eu darparu yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, rydym, yn gofyn i gyflwynwyr ym mha iaith yr hoffent gyflwyno. Mae cyfranogwyr yn cael y cyfle ac yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau / codi sylwadau yn Gymraeg trwy'r swyddogaeth sgwrsio. Yn ddiodyn, mae meicroffonau cyfranogwyr, a chamerau yn cael eu diffodd.

Cynhelir pob un o'n gweminarau gan ddefnyddio Microsoft Teams. Lle mae angen cyfieithu ar y pryd, rydym yn defnyddio'r swyddogaeth dehongli iaith sydd ar gael. Mae gan staff fynediad at ganllawiau ar sut i sefydlu hyn. Daw ein cyfieithwyr ar y pryd gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

O'r 13 weminar a gynhaliwyd gennym (yn ystod 2023-24), cawsom 16 o ymatebion gwerthuso ac ymatebodd un ohonynt yn Gymraeg.

## Hyfforddiant

Fel rhan o'n rhaglen meithrin capasiti, rydym yn rhedeg cyfres o [gyrsiau hyfforddi](#) am ddim, wedi'u hanelu at gydweithwyr llywodraeth leol. Mae cyrsiau yn cynnwys:

- Cyfleu eich pwynt: Cyflwyniad i gyflwyno data yn effeithiol.
- Deall eich gwybodaeth: Cyflwyniad i ystadegau cryno.
- Clywed gan ddinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal arolygon.
- Ymgysylltu â dinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a rhedeg grwpiau ffocws.

Gan nad yw Tocyn Cymru ar gael bellach, rydym yn defnyddio Ticketsource fel ein plattform tocynnau ar-lein. Er nad yw Ticketsource yn gwbl ddwyieithog, byddwn yn darparu cynnwys disgrifiadol yn y ddwy iaith lle bynnag y mae'r system yn caniatáu. Mae'r holl ohebiaeth a anfonir gan gynnwys y manylion yng ngwahoddiad y Tîm, sleidiau hyfforddi, gwerthusiad a chanllaw hyfforddi i gyd yn ddwyieithog. Mae ein hyfforddiant yn cael ei hysbysebu fel un sy'n cael ei ddarparu yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i fynychwyr wrth archebu a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cwrs. Lle bo trothwy o 10% o'r rhai sy'n mynychu yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darperir cyfieithu ar y pryd. Yn ystod 2023-24, darparwyd 21 o gyrsiau. Dosbarthwyd un cwrs gyda chyfieithu ar y pryd, gan fod mwy na 10% o'r mynychwyr wedi gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg ar y cwrs. Mae gennym aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, sy'n rheoli'r rhaglen hyfforddi. Mae hyn wedi golygu y gallwn nawr gefnogi mynychwyr, lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn yr hyfforddiant.

Yn 2024-25, byddwn yn ychwanegu dau gwrs hyfforddi newydd at ein rhaglen: Data101 a Deall Perfformiad. Rydym hefyd yn bwriadu cynnig sesiwn uniaith Gymraeg ar gyfer pob un o'r cyrsiau hyn.

Rydym hefyd yn cynnal rhaglen hyfforddi [DataBasicCymru](#). Mae DataBasicCymru sy'n seiliedig ar raglen a ddatblygwyd gan Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT), gyda'r bwriad o ddysgu'r hanfodion i helpu pobl i ddod yn fwy hyderus gyda data. Rydym wedi'i ailddatblygu i gynnwys data ac ymarferion sy'n berthnasol i'r Gymraeg, ac mae hefyd ar gael yn y Gymraeg gyda'n hwyluswyr Cymraeg eu hiaith.

## Cyhoeddusrwydd, arwyddion a deunyddiau

Mae pob deunydd yn cael ei gynhyrchu yn unol ag egwyddorion dylunio dwyieithog. Mae ein cyhoeddiadau ni (yn hytrach na'r rhai y cawn ein comisiynu i'w cynhyrchu, a wnawn yn unol â manylebau'n cwmser), ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg neu'n ddwyieithog, yn dibynnu ar beth sy'n cael ei gynhyrchu.

Caiff pob arwydd a godir gennym ni naill ai'n ddwyieithog, neu mae fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg, gyda'r Gymraeg yn cael ei lleoli lle bo'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

## Ein gwefan a'n presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol

Mae ein [gwefan](#) yn gwbl ddwyieithog ac yn gadael i defnyddwyr doglo rhwng tudalennau Cymraeg a Saesneg yn rhwydd. Mae ein system [ddata ar-lein](#) hefyd yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnig y gallu i doglo rhwng tudalennau Cymraeg a Saesneg.

Rydym yn defnyddio [X](#) a [LinkedIn](#) ar gyfer ein busnes. Rydym yn postio yn Gymraeg a Saesneg, nid yw terfynau cymeriadau fel arfer yn caniatáu postiadau dwyieithog. Defnyddiwn blatfform cyfryngau cymdeithasol (Hootsuite) sy'n ein galluogi i lwytho'n trydarau ymlaen llaw ac amserlennu pryd y cânt eu cyhoeddi sy'n golygu bod y Gymraeg a'r Saesneg ar gael yn gydamserol.



Eleni fe ddefnyddion ni ein sianel cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy ystod o ddiwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol. Mae hyn wedi helpu amlygrwydd y Gymraeg i'n cwsmeriaid a'n staff.

Mae gan yr holl staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl y symbol Iaith Gwaith wrth ymyl eu henw ar dudalen '[Ein Tîm](#)'. Anogir staff sy'n dysgu Cymraeg neu efallai nad ydynt mor hyderus yn defnyddio'r Gymraeg i arddangos y symbol Iaith Gwaith wrth ymyl eu henw, lle maent yn gyfforddus i wneud hynny.

## Y Dderbynfa

Nid oes gennym dderbynfa na gwasanaeth derbynfa yn ein swyddfa a rennir gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), yn Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd. Nid yw'r swyddfa ar agor i'r cyhoedd ac, oherwydd natur ein busnes, fel arfer dim ond gydag apwyntiad a derbyniwn ni ymwelwyr. Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allanol yn rhithiol. Fodd bynnag, rydym yn annog aelodau staff i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau bod unrhyw ymwelwyr yn derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Rydym yn arddangos logo Comisiynydd y Gymraeg "Defnyddiwch eich Cymraeg / Iaith Gwaith" wrth fynedfa'r swyddfa. Mae gennym hefyd arwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn annog ein hymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Gofynnir i'n holl staff sy'n siarad Cymraeg wisgo naill ai cortynnau gwddf Cymraeg yn y Gweithle neu fathodyn i roi gwybod i'n hymwelwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg i hyrwyddo ei ddefnydd yn y gweithle. Yn 2023-24, fe wnaethom ymgorffori logo Iaith Gwaith yng nghefnidiroedd Microsoft Teams ar gyfer ein staff Cymraeg.

## Llofnodion e-bost a negeseuon awtomataidd

Mae canllawiau i staff ar y fformat cywir ar gyfer llofnodion e-bost a negeseuon awtomataidd a chaiff y rhain eu gwirio ar hap yn rheolaidd. Mae llofnodion e-bost yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf ac mae pob llofnod yn pwysleisio ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn rhoi sicrwydd y bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Anogir staff i ychwanegu'r symbol Iaith Gwaith wrth ymyl eu henwau ar eu llofnodion e-bost pan fyddant yn gyfforddus i wneud hynny.

Yn 2023 - 24, fe wnaethom ymgorffori logo Iaith Gwaith yn ein cefndiroedd Microsoft Teams ar gyfer ein staff Cymraeg, gyda'r nod o annog mwy o sgysiau yn y Gymraeg yn ystod amser gwaith.

## Contractau

Fe fydd yr holl hysbysebion a'r ddogfennaeth ategol ar gael yn Saesneg a Chymraeg. Gwnaethom groesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Yn ystod 2023-24 ni chyhoeddwyd unrhyw gontractau.

## Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg

Gwnawn yn siŵr fod ein holl gwsmeriaid yn deall yr hyn rydym yn gallu ei gyflenwi yn y Gymraeg. Gan fod llawer o'n gwaith yn cael ei gyflenwi ar ran eraill, parchwn eu gofynion iaith hwythau. Serch hynny, cynhwyswn opsiynau o ran yr hyn a all gael ei gyflenwi yn y Gymraeg fel rhan o'n proses pennu cwmpas gyda'r cwsmer. Ein hargymhelliad fel arfer yw i bob adroddiad terfynol, gwefan ac arsyllfeydd yn gwbl ddwyieithog, gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg sydd â'r un statws, ar gael.

Mae manylion ein Safonau Iaith Gymraeg ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae holl lofnodion e-bost y cyflogai yn cynnwys 'Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith. Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi. / We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.'

Anogir yr holl staff sy'n siarad Cymraeg i gynnwys logo Iaith Gwaith yn eu llofnod e-bost a thrwy ein cefndiroedd Microsoft Teams. Rydym hefyd yn cynnwys logo Iaith Gwaith ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg ar ein [gwefan](#).

Yn ystod 2023-243 cawsom 136 o geisiadau cyfieithu. O'r rheini, anfonwyd 109 at gyfieithydd allanol a chyfieithwyd 27 (mân geisiadau yn bennaf) yn fewnol. Cyfieithwyd cyfanswm o 70,236 o eiriau yn allanol.

Yn ystod 2023-24 buom yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy amrywiaeth o ddiwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy e-byst / sesiynau briffio staff. Roedd y rhain yn cynnwys:

**Sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg Ionawr 2024** - Cynhaliodd Prifysgol Caerdydd ddwy sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer holl staff Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd y sesiynau hyn yn ddewisol ac roeddent yn gyfle i staff ddeall hanes, diwylliant a phwysigrwydd y Gymraeg:

*"Fe wnaethon ni a'r @WelshLGA fwynhau ein sesiwn Ymwybyddiaeth Gymraeg 'Y Gymraeg - pam mae'n bwysig?' ddoe. Diolch yn fawr i Anna o @cardiffuni am redeg y sesiwn i ni. Gadewch i ni gofleidio'r Gymraeg!"*

<https://x.com/DataCymru2018/status/1747636104268845252>

**Ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' (Defnyddiwch eich Cymraeg)** – rhedodd yr ymgyrch rhwng 27 Tachwedd ac 11 Rhagfyr 2023. Gwnaethom bostio cyfathrebiadau amrywiol o amgylch yr ymgyrch hon gan ddefnyddio deunyddiau a ddarparwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys:

*Mae cyfleoedd ar draws Cymru i ddefnyddio dy Gymraeg. Cofia ddefnyddio dy Gymraeg yn y siop, yn y caffi, yn y gwaith, yn yr ysgol, a gyda dy ffrindiau, ar-lein neu wyneb yn wyneb!*  
*#DefnyddiaDyGymraeg @ComyGymraeg*

<https://x.com/DataCymru2018/status/1727641273333317899>

*🚩 Peidiwch â cholli allan ar ymgyrch @ComyGymraeg 'Defnyddia dy Gymraeg' 27 Tachwedd i 11 Rhagfyr! Mae'n gyfle i sefydliadau yng Nghymru arddangos eu gwasanaethau Cymraeg. Gadewch i ni gyd gofleidio a defnyddio'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd! 🇨🇪*  
*#DefnyddiaDyGymraeg*

<https://x.com/DataCymru2018/status/1729888488756265130>

**Diwrnod Shwmae 15 Hydref 2023** – Dathlwyd Diwrnod Shwmae gydag ymgyrch ar-lein i godi ymwybyddiaeth o arwyddocâd y digwyddiad. Defnyddiom yr hashnod #shwmae i annog y diwrnod.

*🇨🇪 #DiwrnodShwmae hapus bawb! 🇨🇪*  
*Heddiw, rydyn ni'n cofleidio'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Gadewch i ni ddechrau ein sgysiau gyda "Shwmae" cyfeillgar. Peidiwch ag anghofio rhannu eich hoff eiriau ac ymadroddion Cymraeg drwy gydol y dydd. 🇨🇪 #Cymru*

<https://x.com/DataCymru2018/status/1713479874793357515>

Ar 13 Hydref 2023 ar yr un diwrnod fe wnaethom hyrwyddo cyhoeddi ein **Hadroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg** ar gyfer 2022-23. Roedd yr adroddiad ar gael ar ein gwefan a hefyd drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol

<https://x.com/DataCymru2018/status/1712770224225714246>

Mynychodd ein cydweithiwr Roisin Roberts gwrs preswyl yn Nant Gwrtheryn. Ysgrifennodd hi flog am ei phrofiad yn siarad Cymraeg:

Dysgwch am daith anhygoel Róisín Roberts o ddysgu Cymraeg yn @NantGwrtheyrn1  
! 🇬🇧 Mae ei phrofiad ysbrydoledig yn profi bod "wir yn siarad Cymraeg" o fewn cyrraedd.  
👤 🌟 Darganfyddwch fwy yn ein blog diweddaraf! #IaithGymraeg #siaradCymraeg

<https://www.data.cymru/cym/data-cymru-supporting-our-people-to-really-speak-welsh>

## Safonau gweithredol

### Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith

Rydym yn annog staff i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith drwy'r polisi Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol. Mae'n ofynnol i'r holl staff newydd ddarllen y polisi ac os gwneir unrhyw newidiadau, gofynnir i aelodau presennol y staff ailedrych arno. Mae'r polisi yn cynnwys canllawiau i staff ar ba ryngwynebau Cymraeg sydd ar gael iddynt a sut i wneud cais iddynt gael eu gosod. Mae'r polisi yn cynnwys dolen hefyd â Cysill ar-lein a Microsoft Translator fel offer a all gael eu defnyddio (gyda gofal).

Rydym wedi datblygu canllaw staff cynhwysfawr i gefnogi staff i weithredu ein safonau iaith Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Mae arweiniad yn cynnwys:

- Gwneud a derbyn galwadau ffôn
- Cynnal cyfarfodydd gydag unigolion neu grwpiau
- Anfon ac ateb gohebiaeth
- Cadarnhau dewis iaith
- Protocol ar gyfer cyfieithu dogfennau.

Gofynnir i'r holl staff yn flynyddol a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth yn Gymraeg. Cofnodir eu dewisiadau iaith ar ein system Adnoddau Dynol. Os bydd dewisiadau iaith yn newid ar unrhyw adeg rhwng hynny, anogir staff i hysbysu Adnoddau Dynol fel bod yr holl ddogfennau yn cael eu darparu yn eu dewis iaith a bod y system AD yn cael ei diweddarau yn unol â hynny.

Anogir y staff i wisgo bathodynau a llinynau sy'n dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

Anogir staff i drafod cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gyda'u rheolwyr llinell yn ystod eu chwe sesiwn wythnosol. Cofnodir trafodaethau trwy ffurflen ffurfiol a'u cynnal ar gofnod AD staff. Yna trafodir unrhyw geisiadau ffurfiol am hyfforddiant rhwng rheolwr y llinell ac AD. Cynigir cyfleoedd hyfforddi i'r aelodau hynny o staff sy'n dymuno dysgu, neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg, a gall unrhyw aelod o staff godi ceisiadau o'r fath ar unrhyw adeg gyda'u rheolwr llinell.

Ym mis Mawrth 2023, cynhaliwyd ein sesiwn gyntaf Coffi Cymraeg. Rydym yn cynnal y sesiynau hyn fel arfer wyneb yn wyneb yn ein swyddfeydd ac maent yn cael eu cynnal bob mis. Mae ein sesiynau Coffi Cymraeg yn darparu cyfle i gydweithwyr ffurfio perthynas â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill yn y gweithle er mwyn iddynt ymarfer eu sgiliau iaith a meithrin lefelau hyder.

Rydym hefyd wedi defnyddio ein cymuned gymdeithasol ar Yammer ar gyfer staff i helpu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant (rhannu cyfleoedd, erthyglau, digwyddiadau Cymraeg sydd ar ddod, cerddoriaeth Gymraeg ac ati). Mae gennym hefyd sianel Teams Gwasanaethau Iaith bwrpasol lle mae gwybodaeth am y Gymraeg am y gweithle yn cael ei hyrwyddo e.e. canllawiau, cylchlythyrau gan Gomisiynydd y Gymraeg ac ati.

Rydym hefyd yn defnyddio'r cyfle yn ein sesiynau briffio staff misol i rannu gwybodaeth, yn ôl yr angen ynghylch y Gymraeg.

## Porth Polisi Staff

Mae gennym borth polisi dwyieithog y mae gan bob aelod o staff fynediad iddo. Mae'n holl bolisiau ar gael yn y Gymraeg yn unol â'n safonau gweithredol. Mae'r Porth yn rhoi pob polisi i'r staff, ynghyd ag unrhyw ffurflenni y gall fod angen iddynt eu llenwi yn ystod eu cyflogaeth yn Data **Cymru**. Mae'r Porth yn rhyngweithiol ac yn gwbl chwiliadwy.


## Sgiliau Cymraeg y gweithlu

Yn ystod Mawrth 2023, cynhaliom archwiliad o sgiliau Cymraeg ein staff ac unrhyw ddiddordeb a oedd ganddynt mewn datblygu sgiliau Cymraeg. Gwelir copi o'r arolwg yn **Atodiad A**.

Ar adeg yr archwiliad roeddem yn cyflogi 23 aelod o staff (yr un fath ag yn 2022-23). Gofynnwyd i'r staff ddweud wrthym am lefel eu sgiliau, gan ddefnyddio Sgiliau Cymraeg – asesu'r gweithle (a bennir yn Recriwtio: Ystyriaethau'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg), am wrando; darllen; siarad ac ysgrifennu Cymraeg.


Dengys **Ffigur 1** fod 9% (2) o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg (o gymharu â 13% yn 2022-23). Mae 65% (15) o'n staff yn teimlo bod ganddynt o leiaf sgiliau gwranddo sylfaenol a'u bod yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn y Gymraeg (o gymharu â 69% (16) yn 2022-23). Roedd 26% (6) o staff yn teimlo eu bod yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â gwaith, cynnydd o'i gymharu â 17% yn 2022-23.

**Ffigur 1 – Sgiliau gwranddo Cymraeg y staff, 2023**




Dengys **Ffigur 2** fod 78% (18) o staff yn teimlo eu bod yn gallu darllen geiriau. deunyddiau ac ymadroddion yn cynnwys gwaith, cynnydd o gymharu â 65% yn 2022 - 23). Mae 13% (3) yn teimlo eu bod yn gallu darllen y rhan fwyaf o'r deunydd yn eu maes eu hunain ac yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur. Mae 22% (5) yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw sgiliau yn y maes hwn, gostyngiad o gymharu â 35% yn 2022-23.

**Ffigur 2 – Sgiliau darllen Cymraeg y staff, 2023**



Dengys **Ffigur 3** fod gan 60% (14) o staff ryw lefel o Gymraeg llafar (o gymharu â 65% yn 2022-23). Mae 18% (4) o'n staff yn teimlo eu bod yn gwbl rugl yn y Gymraeg ac yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau (o gymharu â 27% yn 2022-23). Mae 22% (5) o'n staff yn teimlo eu bod yn gallu cynnal sgwrs gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau ac enwau lleoedd) yn Gymraeg (o gymharu â 30% yn 2022-23).


**Ffigur 3 –Sgiliau siarad Cymraeg y staff, 2023**



Dengys

**Ffigur 4** fod 57% (13) o staff yn teimlo bod ganddynt ryw faint o allu i ysgrifennu Cymraeg (o gymharu â 60% yn 2022-23). Teimlodd 9% (2) o staff eu bod yn ddigon medrus i allu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb yr angen am adolygiad yr un fath o gymharu â'r flwyddyn flaenorol Teimlai 43% (10) o staff nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau ysgrifennu, cynnydd o gymharu â 39% yn 2022-23. Mae ein prosesau mewnol yn gofyn i'r holl staff, beth bynnag y bo lefel eu cymhwysedd, gael eu gwaith wedi ei wirio gan Wasanaethau Iaith er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y busnes. Efallai bod hyn yn effeithio ar eu hyder am fod eu gwaith yn agored i'w adolygu.

**Ffigur 4 – Sgiliau ysgrifennu Cymraeg y staff, 2023**




Yn unol â'r safonau Cadw Cofnodion, rydym wedi cadw cofnod o bob ymateb i'r archwiliad.

Mae **Tabl 4** a **Ffigur 5** yn dangos bod sgiliau Cymraeg staff yn uwch nag yr oeddent yn ystod yr amser y casglwyd y data sylfaenol yn 2018. Ers 2018 mae canrannau o staff sy'n adrodd nad oes ganddynt "sgiliau" mewn gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg wedi gostwng yn sylweddol sy'n awgrymu bod staff ar y cyfan yn fwy hyderus yn eu sgiliau Cymraeg ym mhob un o'r categorïau hyn.

**Tabl 4 – Data yn cymharu "dim sgiliau" a adroddwyd dros amser, 2018 a 2024**

Staff yn adrodd "dim sgiliau" ym mhob categorï	2018 (gwaelodlin 21 o staff)	2024 (gwaelodlin 23 o staff)
<b>Gwrando</b>	52%	35%
<b>Darllen</b>	48%	22%
<b>Siarad</b>	62%	39%
<b>Ysgrifennu</b>	67%	43%

**Ffigur 5 – Data yn cymharu "dim sgiliau" a adroddwyd dros amser, 2018 a 2024**




Mae [Error! Reference source not found.](#) a **Ffigur 6** yn dangos yn gyffredinol bod cynnydd sylweddol yn y categorïau mwy 'sgiliau uwch' ar gyfer gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu dros amser.

**Tabl 5 - Data yn cymharu "sgiliau uwch" a adroddwyd dros amser, 2018 a 2024**

Staff yn adrodd "sgiliau uwch" ym mhob categori	2018 (gwaelodlin 21 o staff)	2024 (gwaelodlin 23 o staff)
<b>Gwranddo: Gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â gwaith</b>	14%	26%
<b>Darllen: Gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â gwaith</b>	10%	13%
<b>Siarad: Rhugl - gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig o amser lle bo angen</b>	10%	17%
<b>Ysgrifennu: Medrus - gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb fod angen adolygu</b>	0%	9%

**Ffigur 6 - Data sy'n cymharu "sgiliau uwch" a adroddwyd dros amser, 2018 a 2024**



Ar gyfer sgiliau siarad er enghraifft, teimlai 10% o staff eu bod yn rhugl ac yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau yn Gymraeg yn 2018, mae hyn wedi cynyddu i 17% yn 2023. Yn yr un modd, roedd nifer y staff a oedd yn teimlo eu bod wedi' dim sgiliau siarad Cymraeg' yn 2018 oedd 62% o'i gymharu â 39% yn 2023. Teimlai 0% o staff fod ganddynt sgiliau ysgrifennu uwch yn 2018, mae hyn yn cymharu â 9% yn 2023.

### Datblygu sgiliau Cymraeg ein staff

Fel rhan o'r archwiliad sgiliau, manteisiwyd ar y cyfle i ddeall mwy am sut yr hoffai staff ddefnyddio Cymraeg yn fwy yn y gwaith. Dengys [Ffigur 7Error! Reference source not found.](#) fod 22% (8) o staff wedi dweud yr hoffent ddysgu Cymraeg (siarad / ysgrifennu / darllen) gostyngiad o 39% yn 2022-2023.


Dywedodd 19% (9) o'n staff Cymraeg y byddent yn hoffi gwella eu Cymraeg ysgrifenedig (o gymharu â 39% yn 2022-23). Yn ystod 2023-24, mynychodd dau aelod o staff gwrs ysgrifennu Gloywi - Ysgrifennu / Hyfedredd - yn Nant Gwrtheyrn a allai helpu i esbonio'r gostyngiad yn nifer y staff sydd am wella eu sgiliau mewn Cymraeg ysgrifenedig.

Dwedodd 14% (5) yr hoffent datblygu sgiliau Cymraeg penodol sy'n gysylltiedig â gwaith (o gymharu â 26% yn 2022-23). Dywedodd 19% (7) o'n staff Cymraeg y byddent yn hoffi



gwella eu Cymraeg llafar (o gymharu â 43% yn 2022-23). Sylwch, ar gyfer y cwestiwn hwn, bod staff yn gallu dewis cymaint o opsiynau â sy'n berthnasol.

### Ffigur 7 – Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, 2023



Gofynnwyd ni gwestiwn terfynol, pen-afored hefyd sef a hoffai unrhyw un ddweud unrhyw beth arall wrthym am sut maent yn defnyddio, neu sut hoffent ddefnyddio, Cymraeg yn y gwaith. Awgrymodd nifer o ymatebion yr hoffent gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn arbennig i allu cyflwyno rhai elfennau o'u gwaith yn y Gymraeg.

Yn ystod 2023 mynychodd 3 aelod o staff Cymraeg rhugl y Cwrs Gloywi Iaith yn Nant Gwrtheyrn. Aeth dau ymlaen i fynychu a chwblhau'r cwrs Gloywi - Ysgrifennu / Hyfedredd - Ysgrifennu. Mae'r trydydd aelod o staff yn cael ei drefnu i fynychu'r Gloywi - Ysgrifennu ym mis Medi 2024.

Ym mis Ionawr 2024, cynhaliodd Prifysgol Caerdydd ddwy sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ar gyfer holl staff Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd y sesiynau hyn yn ddewisol ac roeddent yn gyfle i staff ddeall hanes, diwylliant a phwysigrwydd y Gymraeg. Cafodd y sesiynau eu croesawu'n fawr. Ers y sesiynau rydym wedi derbyn diddordeb gan staff i ddysgu Cymraeg ar wahanol lefelau drwy gyfrwng Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae gennym 14 aelod o staff sydd â diddordeb yn y cwrs lefel mynediad a fydd yn digwydd yn bersonol yn ein gweithle. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gadarnhad o gyllid ar gyfer y cwrs hwn i fynd yn ei flaen. Mae cyfleoedd i staff sydd â diddordeb mewn lefelau eraill hefyd yn cael eu trefnu.

### Dewisiadau o ran y Gymraeg


Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni holi'n staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau gweithiol mewnol allweddol yn y Gymraeg. I'n galluogi i gipio'r wybodaeth hon yn gyflym ac yn rhwydd, gofynnwyd i staff gwblhau arolwg byr.

Ar adeg yr arolwg, roeddem yn cyflogi 23 aelod o staff (yr un fath ag yn 2022-23). Mae copi o'r arolwg ar gael yn **Atodiad A**.

Dengys

**Ffigur 8** ni ofynnodd un aelod o staff am dderbyn unrhyw ohebiaeth bapur sy'n cael ei chyfeirio'n uniongyrchol at staff mewn perthynas â'u cyflogaeth yn y Gymraeg.

**Ffigur 8 – Dewis iaith staff ar gyfer derbyn gohebiaeth mewn perthynas â'u cyflogaeth, 2023**



Mae ein holl bolisiau a'n ffurflenni ar gael yn Gymraeg. Gofynnwyd i'r holl staff cwestiwn pen-agored i ddweud wrthym a oedd unrhyw ddogfennau neu ffurflenni eraill yr hoffent eu gweld ar gael yn Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw beth ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

### **Llofnodion e-bost a negeseuon awtomeiddiedig**

Mae ein llofnodion e-bost yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. I'r staff hynny sy'n teimlo'n gyfforddus i'w chynnwys, mae gennym fersiwn o'r llofnod sy'n cynnwys symbol iaith Gwaith. Mae llofnodion e-bost hefyd yn cynnwys datganiad sy'n ei gwneud yn glir y croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg ac y caiff y ddwy eu trin yn gyfartal.

Mae ein safonau corfforaethol yn mynnu bod pob neges "allan o'r swyddfa" yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Mae gennym dempled i staff ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb ar draws y busnes.

### **Recriwtrio**

Yn ystod 2023-24 ni wnaethom recriwtio aelodau o staff newydd.

Pe byddem wedi recriwtio byddai pob swydd wedi cael ei hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg a byddai hysbysebion wedi datgan fod croeso i ymgeiswyr gyflwyno'r wybodaeth ofynnol yn y naill iaith neu'r llall. Mae'r pecynnau recriwtio llawn, gan gynnwys ein fframwaith cymwyseddau a'r disgrifiadau swydd, ar gael yn y Gymraeg a Saesneg.

I hysbysebuein holl swyddi rydym yn defnyddio amrywiol lwyfannau recriwtio Cymru gan gynnwys [Swyddle](#) a [Safle Swyddi](#). Mae'r ddau lwyfan yn ein galluogi i dargedu ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg.

Rhoddir anwythiad cynhwysfawr i unrhyw aelod newydd o staff, sy'n cynnwys ymglyfarwyddo â'n canllawiau ar gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

### **Arwyddion**

Mae pob arwydd newydd sy'n cael ei chodi gennym ni yn ein swyddfeydd yn cael ei darparu yn y Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, naill ai'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, neu ar wahân gyda'r Gymraeg yn cael ei lleoli er mwyn bod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf. Bydd y ddwy yn defnyddio'r un maint ffont.

### **Safonau Llunio Polisiâu**

Gwnaethom gyflwyno dau polisi iechyd a diogelwch newydd yn ystod 2023-24. Aseswyd yr holl bolisiau newydd ac unrhyw newidiadau i'r polisiâu presennol ar sut y bydd y polisi

yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Safonau Cadw Cofnodion

### Cofnodion mewn perthynas â chwynion

Yn ystod 2023-24 ni chawsom unrhyw gwynion.

### Cofnodion mewn perthynas â llunio polisi

Rydym wedi cyflwyno dau bolisi iechyd a diogelwch newydd yn ystod 2023-24. Rydym yn asesu yr holl bolisiau newydd ac unrhyw newidiadau i'r polisiau presennol ar sut y bydd y polisi yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Fel rhan o'r asesiad effaith ar bolisi, gofynnwn 'Sut mae'r polisi hwn yn effeithio ar y categori hwn?' a 'Pa gamau a gymerwyd / a gymerir i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?'

### Cofnodion mewn perthynas ag Asesiadau'r Gymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag a sut y cawsant eu categorio

Rydym yn asesu anghenion iaith pob swydd newydd neu wag. Mae'r holl swyddi'n cael eu categorio a'u hysbysebu fel un o'r canlynol:

- Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol;
- Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth eu penodi i'r swydd; neu
- Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol.

Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi newydd neu wag yn ystod y cyfnod hwn.

### Cofnodion mewn perthynas â chyrsgiau hyfforddi a fynychir gan staff

Yn ystod 2023 mynychodd 3 aelod o staff Cymraeg rhugl y Cwrs Gloywi iaith yn Nant Gwrtheyrn. Aeth dau y ddau ymlaen i fynychu a chwblhau'r cwrs Gloywi - Ysgrifennu / Hyfedredd - Ysgrifennu. Mae'r trydydd aelod o staff yn cael ei drefnu i fynychu'r Gloywi - Ysgrifennu ym mis Medi 2024. Digwyddodd hyn yn ystod oriau gwaith. Mae unrhyw hyfforddiant yn cael ei gofnodi yn ein system Adnoddau Dynol.

### Cofnodion mewn perthynas â sgiliau Cymraeg staff

Cynhaliom ni archwiliad o sgiliau Cymraeg ein staff. Gwelir y canlyniadau yn y tablau isod. Yn ogystal, mae cofnod wedi cael ei gadw ar gyfer pob aelod staff. Mae copi o'r cwestiynau a ofynnwyd ar gael yn [Atodiad A](#).

#### Sgiliau yn y Gymraeg am wrando

Sgiliau gwranddo	Nifer	Canran
Dim sgiliau	8	35%
Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg - 'Ble mae...?'; 'Ga i siarad â...?'	4	17%
Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg	2	9%
Yn gallu dilyn sgwrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl	3	13%
Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgwrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp	0	0%
Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith	6	26%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100%</b>

## Sgiliau yn y Gymraeg am ddarllen

Sgiliau darllen	Nifer	Canran
Dim sgiliau	5	22%
Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol e.e. arwyddion neu nodiadau byr a syml	8	35%
Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf)	1	4%
Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur	3	13%
Yn gallu darllen y rhan fwyaf o'r deunydd yn eich maes eich hun	3	13%
Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â'r gwaith	3	13%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100%</b>

## Sgiliau yn y Gymraeg am siarad

Sgiliau siarad	Nifer	Canran
Dim sgiliau	9	39%
Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, ac enwau lleoedd)	5	22%
Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith	1	4%
Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol	3	13%
Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg	1	4%
Rhugl - yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen	4	17%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100%</b>

## Sgiliau yn y Gymraeg am ysgrifennu

Sgiliau ysgrifennu	Nifer	Canran
Dim sgiliau	10	43%
Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol -'Diolch am y llythyr. Dyma gopi o'r map.'	3	13%
Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth	2	9%
Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol	3	13%
Yn gallu paratoir'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r maes, gyda pheth cymorth gwirio	3	13%
Medrus - ym medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio	2	9%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100%</b>

## Cofnodion mewn perthynas â dewisiadau staff o ran sgiliau Cymraeg

Cynhaliom ni archwiliad o ddewisiadau iaith ein staff. Gwelir y canlyniadau yn y tablau isod. Yn ogystal, mae cofnod wedi cael ei gadw ar gyfer pob aelod staff. Mae copi o'r cwestiynau a ofynnwyd ar gael yn [Atodiad A](#).

Dwedwch wrthym ni ym mha iaith hoffech chi dderbyn unrhyw ohebiaeth bapur sy'n cael ei chyfeirio'n uniongyrchol atoch chi mewn perthynas â'ch cyflogaeth:	Nifer	Canran
Saesneg	23	100%
Cymraeg	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100%</b>

## Casgliad a'r camau nesaf

Rydym wedi parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ac adeiladu ar gyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg dros gyfnod yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Rydym yn falch o allu rhoi sicrwydd uchel i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg o gydymffurfio â'n safonau iaith yn ystod y cyfnod hwn.

Rydym wedi cymryd sawl cam ychwanegol i annog aelodau o staff i ddatblygu eu sgiliau a'u hymarfer Cymraeg yn rheolaidd gydag eraill, trwy hyrwyddo rheolaidd a chyflwyno sesiynau Coffi Cymraeg misol. Yn ystod 2023-24, gwnaethom barhau i adeiladu ar y gwaith hwn drwy ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu a gwella eu Cymraeg yn y gwaith.

Ym mis Ionawr 2024, cynhaliodd Prifysgol Caerdydd ddwy sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ar gyfer holl staff Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd y sesiynau hyn yn ddewisol ac yn gyfle i staff ddeall hanes, diwylliant a phwysigrwydd y Gymraeg. Cafodd y sesiynau eu croesawu'n fawr. Ers y sesiynau rydym wedi derbyn diddordeb gan staff i ddysgu Cymraeg ar wahanol lefelau drwy gyfrwng Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae gennym 14 aelod o staff sydd â diddordeb yn y cwrs lefel mynediad, ar draws y ddau sefydliad a fydd yn digwydd yn bersonol yn ein swyddfa. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gadarnhad o gyllid ar gyfer y cwrs hwn i fynd yn ei flaen. Mae cyfleoedd i staff sydd â diddordeb mewn lefelau eraill hefyd yn cael eu trefnu.

Yn ystod 2023 mynychodd 3 aelod o staff Cymraeg rhugl y Cwrs Gloywi Iaith yn Nant Gwrtheyrn. Aeth dau y ddau ymlaen i fynychu a chwblhau'r cwrs Gloywi - Ysgrifennu / Hyfedredd - Ysgrifennu. Mae'r trydydd aelod o staff yn cael ei drefnu i fynychu'r Gloywi - Ysgrifennu ym mis Medi 2024.

Yn ystod 2024-25 rydym yn gobeithio ein bod wedi derbyn cyllid fel bod ein dysgwyr Cymraeg yn gallu dechrau eu cwrs Cymraeg yn y gweithle drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

# Atodiad A – Archwiliad o sgiliau a dewisiadau iaith Gymraeg

## Archwiliad o sgiliau a dewisiadau iaith Gymraeg

Mae'r Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn gofyn ein bod yn cynnal archwiliad o sgiliau a dewisiadau iaith Gymraeg ein staff yn flynyddol. Bydd eich atebion i'r cwestiynau sy'n dilyn yn cael eu cadw fel cofnod o'ch sgiliau iaith, hefyd, adroddir dadansoddiad o'r gweithlu yn ein hadroddiad blynyddol i'r Comisiynydd y Gymraeg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am yr arolwg hwn, cysylltwch â Jodie Phillips ar 029 2090 9535 neu e-bostiwrch [jodie.phillips@data.cymru](mailto:jodie.phillips@data.cymru).

Os bydd gennych unrhyw broblemau wrth gwblhau'r arolwg hwn cysylltwch â [arolygon@data.cymru](mailto:arolygon@data.cymru).

Diolch am eich cydweithrediad.

### 1. Rhowch eich enw, os gwelwch yn dda: \*

Dylech chi ateb y canlynol ar sail eich sgiliau o ran y gwaith, yn hytrach nag yn y cartref neu'n gymdeithasol.

### 2. Dwedwch wrthym ni lefel eich sgil yn y Gymraeg am wrando: \*

Dim sgiliau

Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg - 'Ble mae...?'; 'Ga i siarad â...?'

Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg

Yn gallu dilyn sgysiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl

Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgysiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp

Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith

### 3. Dwedwch wrthym ni lefel eich sgil yn y Gymraeg am ddarllen: \*

Dim sgiliau

Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol e.e. arwyddion neu nodiadau byr a syml

Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf)

Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur

Yn gallu darllen y rhan fwyaf o'r deunydd yn eich maes eich hun

Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â'r gwaith

**4. Dwedwch wrthym ni lefel eich sgil yn y Gymraeg am siarad: \***

Dim sgiliau

Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, ac enwau lleoedd)

Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith

Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol

Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg

Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen

**5. Dwedwch wrthym ni lefel eich sgil yn y Gymraeg am ysgrifennu: \***

Dim sgiliau

Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol –'Diolch am y llythyr. Dyma gopi o'r map.'

Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth

Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol

Yn gallu paratoi'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r maes, gyda pheth cymorth gwirio

Medrus – ym medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio

**6. Gan feddwl am sut y gallech ddefnyddio'r Gymraeg mwy yn y gwaith, byddai gennych ddiddordeb yn y cyfle i wneud unrhyw un o'r canlynol:**

Dysgu Cymraeg (siarad/ysgrifennu/darllen)

Datblygu sgiliau Cymraeg sy'n gysylltiedig yn benodol â'r gwaith (e.e. cwrdd a chyfarch neu iaith sy'n benodol i faes gwaith arall)

Gwella eich Cymraeg llafar

Dim

Arall, nodwch os gwelwch yn dda:

**7. Os oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am sut y gwnewch, neu sut yr hoffech chi fod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, rhowch wybod i ni:**



## Mynegi dewis o ran yr iaith Gymraeg

- 8. Dwedwch wrthym ni ym mha iaith hoffech chi dderbyn unrhyw ohebiaeth bapur sy'n cael ei chyfeirio'n uniongyrchol atoch chi mewn perthynas â'ch cyflogaeth: \***

Cymraeg  
Saesneg

- 9. Mae holl bolisiau Data Cymru ar gael yn y Gymraeg, ond rhowch wybod i ni a oes unrhyw ddogfennau neu ffurflenni eraill yr hoffech iddynt nhw fod ar gael yn y Gymraeg.**

Diolch am gwblhau'r arolwg hwn. Bydd yr wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn ein helpu i ddatblygu dulliau o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am yr arolwg hwn, cysylltwch â Jodie Phillips ar 029 2090 9500 neu e-bostiwch [Jodie.phillips@data.cymru](mailto:Jodie.phillips@data.cymru).